Cadw

Archwilwyr Hanes

# Clawdd Offa
## *Yr Heneb Hiraf yng Nghymru*

## Adnodd Addysgu

Sy'n Cefnogi Camau Cynnydd 2 a 3
Y Cwricwlwm i Gymru



# Cynnwys

Tudalen flaen, llun o Lwybr Clawdd Offa ar y Clawdd ger Sedbury, Swydd Gaerloyw.


1. Sut mae defnyddio'r adnodd hwn 03

2. Hanes Clawdd Offa 04
   - Llinell Amser 04
   - Y Brenin Offa 05
   - Heddiw 06
   - Pynciau trafod 07
   - Cymdeithas Clawdd Offa (ODA) a Chadwraeth 08
   - Map o Glawdd Offa 09

3. **Gweithgareddau** 11

- Gweithgaredd 1: Beth? 11
  - *Atodiad 1: Gwerthuso'r canfyddiadau* 12

- Gweithgaredd 2: Pryd? 13
  - *Atodiad 2: Llwythau Cymru Enw* 14

- Gweithgaredd 3 : Pwy? 15
  - *Atodiad 3: Brenin Offa* 16
  - *Atodiad 4: Dylunio eich anheddiad Cymreig eich hun* 18

  - *Gweithgaredd 4: Ble?* 20
  - *Atodiad 5: Map o Glawdd Offa* 21
  - *Atodiad 6: Taflen gofnodi* 22

- Gweithgaredd 5: Sut? 23
  - *Atodiad 7: Mantell yr Arbenigwr* 24

- Gweithgaredd 6: Pam? 26
  - *Atodiad 8: Pam y cafodd ei adeiladu?* 27
  - *Atodiad 9: Yn dy farn di, pam y cafodd y Clawdd ei adeiladu?* 28

- Gweithgaredd 7: Nawr? 30
  - *Atodiad 10: Mathau o Bobl* 31

- Gweithgaredd 8: Beth gallwch chi ei wneud? 32
  - *Atodiad 11: Meddiannu hanes* 33
  - *Atodiad 12: Enghreifftiau* 35

# 1 –
# Sut mae defnyddio'r adnodd hwn

Crëwyd yr adnodd hwn i gefnogi athrawon wrth iddynt helpu disgyblion i archwilio hanes Clawdd Offa.

Mae'r adnodd yn ffordd wych o ddatblygu a hyrwyddo'r Cwricwlwm i Gymru, darparu gweithgareddau trawsgwricwlaidd a datblygu sgiliau cyfannol ynghyd â gweithgareddau i archwilio Cynefin. Dyluniwyd y gweithgareddau i helpu'r disgyblion i gyrraedd cam cynnydd 3 ond bydd modd i athrawon eu haddasu ar gyfer plant hŷn neu iau.

## Clawdd Offa

Mae Clawdd Offa yn eiddo i gannoedd o dirfeddianwyr unigol, ffermwyr a deiliaid eraill; mae rhan ohono hefyd o dan Warchodaeth English Heritage. Mae'r rhan fwyaf ohono yn Heneb Gofrestredig a ddiogelir y n gyfreithiol sy'n golygu bod rhaid cael caniatâd gan Cadw neu Historic England cyn ymgymryd â mathau penodol o waith ar y Clawdd. Mae defnyddio synwyryddion metel ar unrhyw ran o Heneb Gofestredig yn anghyfreithlon. Mae'r Clawdd yn heneb hanesyddol bwysig. Fodd bynnag, ychydig iawn o waith archaeolegol sydd wedi digwydd hyd yn hyn felly mae nifer o gwestiynau yn dal heb eu hateb. Mae llawer o waith i'w wneud er mwyn deall hyd y Clawdd, ei bwrpas, ei strwythur, pam y cafodd ei adeiladu, yn ogystal â'i berthynas â henebion eraill.

Yn ystod y 6ed ganrif, nid oedd Cymru a Lloegr yn bodoli fel gwledydd. Roedd yr ymosodiad Eingl-Sacsonaidd yn y 5ed a'r 6ed ganrif yn golygu bod poblogaeth frodorol Prydain wedi'i chyfyngu i Gymru a rhannau o'r Alban yn unig erbyn i'r Brenin Offa ddod i rym. O ganlyniad, wrth drafod Clawdd Offa, bydd yr adnodd hwn yn cyfeirio at y boblogaeth Brydeinig fel Cymry ac yn cyfeirio at deyrnasoedd Lloegr fel Mersia yn unigol neu fel Eingl-Sacsoniaid.



Erydiad Clawdd Offa a achosir gan gerddwyr sy'n defnyddio'r Llwybr Cenedlaethol ger Cefn Bronydd
Dave. Dunford, CC BY-SA 4.0

## Defnyddio'r gweithgareddau

Mae Maes Dysgu'r Dyniaethau yn y Cwricwlwm i Gymru yn pwysleisio pwysigrwydd rhoi cyfleoedd i ddysgwyr archwilio ac edrych ar y profiad dynol yn eu hardaloedd lleol eu hunain ac mewn rhannau eraill o Gymru, yn ogystal ag ar draws y byd, oherwydd gall hynny helpu'r dysgwyr i ddysgu am eu treftadaeth a datblygu ymdeimlad o le a chynefin.

Nod y gweithgareddau hyn yw ysbrydoli'r disgyblion i ymfalchïo yn eu hardal leol a'u grymuso i wneud newidiadau cadarnhaol. Yn ogystal, dyluniwyd y gweithgareddau hyn i ganiatáu i'r disgyblion ymchwilio i heneb ag arwyddocâd lleol a chenedlaethol a chysylltu ag ysgolion eraill ledled Cymru i rannu a chymharu gwahanol brofiadau yn ymwneud â'r heneb.

Mae pob gweithgaredd yn cynnwys cyfarwyddiadau, meysydd dysgu allweddol, sgiliau a rhestr cyfarpar. Mae'r gweithgareddau yn annog dysgu trawsgwricwlaidd trwy helpu i gefnogi'r camau cynnydd ynghyd â datblygu sgiliau a gwybodaeth. Amlygir y rhain ochr yn ochr â'r gweithgareddau.

Ceir copi o unrhyw daflen weithgaredd/wybodaeth a dolen i'r gweithgaredd yn yr atodiad i bob adran.

2 -
# Hanes Clawdd Offa

## Llinell Amser

730 Geni'r Brenin Offa, mab Thingfrith fab Eanwulf.

757 Mae'n cipio'r orsedd ar ôl ymladd yn erbyn ei gefnder Aethelbald a'i ladd.

760 Mae ysbeilwyr o Gymru yn ymosod ac yn ei drechu yn Henffordd.

764 Mae Offa yn ymosod ar Gaint ac yn trechu'r Brenin Sigered.

768 Mae Offa yn priodi Cynethryth ac yn cael pedwar o blant; Ecgfrith, Eadburh, Aethelburh ac Aelfflaed.

770 Y Frenhines Cynethryth yw'r frenhines gyntaf i ymddangos ar ddarn arian.

779 Mae Offa yn trechu Cynewulf, Brenin Wessex.

786 Mae Offa yn dod yn benarglwydd Wessex ac yn rhoi Beorhtric ar yr orsedd. Mae Eadburh, merch Offa, yn priodi Beorhtric.

794 Mae Aethelbert, Brenin Dwyrain Anglia yn cael ei ddienyddio.

796 Mae Offa yn marw ac mae'i fab Ecgfrith yn ei olynu.



Clawdd Offa, ger Knill
Raymond Perry, CC BY-SA 2.0

# 2 –
# Hanes Clawdd Offa

## Y Brenin Offa

Credir i Glawdd Offa gael ei adeiladu gan y Brenin Offa, a oedd yn rheoli Teyrnas Eingl-Sacsonaidd Mersia o 757 OC i 796 OC.

Etifeddodd Offa dalaith Mersaidd a oedd eisoes yn bwerus gan ei ragflaenydd, ei gefnder, y Brenin Aethelbald (716-57). Trwy ei ymgyrchoedd milwrol a'i gynghreiriau, roedd ganddo reolaeth dros y rhan fwyaf o'r hyn rydyn ni'n ei alw'n Lloegr nawr.

Roedd teyrnas Offa yn gorchuddio'r ardal rhwng afonydd Trannon/Mersi yn y Gogledd i Ddyffryn Tafwys yn y De, ac o'r ffin â Chymru yn y Gorllewin i'r Ffendiroedd yn y Dwyrain. Yn anterth ei rym, roedd y Brenin Offa yn rheoli Caint, East Anglia, Lincoln ac roedd ganddo gynghreiriau â Northumbria a Wessex.Priododd dwy o'i ferched eu brenhinoedd. Coronodd Offa ei fab yn gyd-reolwr Mercia, rhywbeth nad oedd erioed wedi digwydd o'r blaen.Roedd gan Offa gysylltiadau â'r arweinydd Ffrancaidd, Charlemagne, y ffigwr gwleidyddol pwysicaf yng Ngorllewin Ewrop, a oedd yn trin Offa yn gyfartal iddo.Creodd ddarnau arian newydd a oedd â'i enw arnynt y gellid eu masnachu'n lleol a thramor.

Credir bod pŵer y Brenin Offa wedi'i ddangos trwy ei allu i adeiladu Clawdd Offa gan y byddai'r adnoddau angenrheidiol wedi bod yn enfawr.

Credir mai dim ond cyfnod byr o ddefnydd y byddai Clawdd Offa wedi'i gael a daeth yn ffin ffisegol neu symbolaidd yn bennaf.Serch hynny, byddai'r gwrthglawdd wedi cael effaith ar y ffordd yr ymgartrefodd pobl yn yr ardal, yn ogystal â bod yn nodwedd nodedig yn y dirwedd.

Offa, Brenin Mersia ar geiniog wen
Y Parth Cyhoeddus






# 2 -
# Hanes Clawdd Offa

## Heddiw


Heddiw, mae Clawdd Offa yn Heneb Gofrestredig. Mae hyn yn golygu ei fod yn safle archeolegol neu hanesyddol o bwysigrwydd cenedlaethol sy'n cael ei warchod rhag newid anawdurdodedig. Mae Clawdd Offa yn un o'r Henebion Canoloesol Cynnar pwysicaf yng Ngorllewin Ewrop a dyma heneb hiraf Prydain.Heddiw mae'n mynd trwy 6 sir yng Nghymru a Lloegr – Sir y Fflint, Wrecsam, Powys, Swydd Amwythig, Swydd Henffordd a Swydd Gaerloyw (Fforest y Ddena). Fe'i rhennir yn sawl rhan oherwydd defnydd tir modern, ffyrdd ac aneddiadau ac mae'n eistedd o fewn gwahanol fathau o dirweddau.

Mae'n wrthglawdd llinellol, ac mae'r rhan fwyaf o'r heneb yn cynnwys clawdd, gyda ffos i'r gorllewin, sy'n mynd trwy'r Gororau rhwng yr hyn a adwaenir yn awr fel Lloegr a Chymru. Fe'i cynlluniwyd i fod yn berthnasol i'r dirwedd o'i gwmpas ac i'w weld ohoni ac fe'i hadeiladwyd yn fwriadol fel hyn.

Mae'r hyn sy'n goroesi yn amrywio. Gallai hyn fod oherwydd pydredd naturiol er enghraifft anifeiliaid sy'n tyllu, dinistr bwriadol dros y 1,200 o flynyddoedd diwethaf a'r gwahaniaethau yn y ffordd y cafodd ei adeiladu, gan na chafodd ei adeiladu yr un fath ym mhob man. Mae ganddo botensial archaeolegol sylweddol gan mai dim ond rhannau bach ohono sydd wedi'u cloddio.

Mae'r rhan sydd ar ôl hefyd wedi ysbrydoli creu Llwybr Clawdd Offa, a agorwyd ym 1971 (177 milltir) ac sy'n dilyn y Clawdd am hanner ei hyd. Mae hyn wedi arwain at gynnydd mewn twristiaeth ar hyd y llwybr, o luniaeth i lety, dehongliad a thywyswyr teithiau.

Map o Lwybr Clawdd Offa a chofeb
Trwy garedigrwydd Cyngor Sir Powys





Rhan benodedig o Glawdd Offa, Edenhope Hill
gan Colin Park, CC BY-SA 2.0

Clawdd Offa gan shellac CC BY 2.0



2 –

# Hanes Clawdd Offa

## Pynciau trafod

Ychydig iawn o Glawdd Offa sydd wedi'i gloddio, felly ni wyddom yn union pryd y cafodd ei adeiladu. Mae'r rhannau a gloddiwyd yn dyddio o ganol yr 8fed Ganrif ond mae data carbon newydd yn dangos rhannau cynharach o bosibl. Mae tystiolaeth fod peth o'r Clawdd wedi'i adeiladu ar ben safle Rhufeinig, ac mae hynny'n cadarnhau iddo gael ei adeiladu wedi'r goresgyniad Rhufeinig.

Mae dadleuon hefyd ynghylch hyd y Clawdd. Y ffynhonnell gynharaf sy'n sôn am Glawdd Offa yw 'Life of King Alfred' gan yr Esgob Asser (895 AD). Mae'n dweud:

Ym Mersia yn ddiweddar, roedd brenin egnïol o'r enw Offa a oedd yn dychryn pob brenin a rhanbarth o'i gwmpas, a gorchmynnodd adeiladu ffos fawr rhwng Prydain a Mersia oedd yn ymestyn o'r naill fôr i'r llall ....'
(Ray a Bapty, 2016: 20)

Ysgrifennwyd y cofnod hwn 100 mlynedd wedi marwolaeth Offa a bu haneswyr yn dadlau ynghylch yr ymadrodd 'o'r naill fôr i'r llall' oherwydd mae ystyron eraill yn bosibl. Yn 2018, nododd adroddiad fod Clawdd Offa yn estyn o bwynt i'r dwyrain o Dreuddyn, Sir y Fflint, i lan orllewinol aber afon Hafren, i'r de-ddwyrain o Sedbury, Swydd Gaerloyw (Fforest y Ddena) yn y de. Mae hyn yn 132 o gilometrau neu'n 82 o filltiroedd o hyd. Mae 56.5 milltir ohono wedi'i ddiogelu. Nid yw'n wrthglawdd parhaus; mae nodweddion naturiol megis llethrau ac afonydd yn llenwi'r bylchau yn y Clawdd. Mae'r dadlau am hyn yn parhau.

Clawdd Offa, Trefynwy, Swydd Amwythig
gan Rosser1954, CC BY-SA 4.0



Clawdd Offa, ger Knill Gan Raymond Perry, *CC BY-SA 2.0*



Llwybr Clawdd Offa gan Eirian Evans, CC BY-SA 2.0



Rhan benodedig o Glawdd Offa, Edenhope Hill
gan Colin Park, CC BY-SA 2.0



# 2 – Hanes Clawdd Offa

## Pynciau trafod

Mae dadlau hefyd ynghylch y rheswm dros godi Clawdd Offa. Mae'r rhan fwyaf o ysgrifenwyr yn cytuno bod y Clawdd yn gysylltiedig ag ardal y gororau a'r ffin rhwng teyrnas Mersia Eingl-Sacsonaidd yn y dwyrain, a theyrnasoedd y Cymry yn y gorllewin. Ond ar fater pam y codwyd y Clawdd, mae'r casgliadau'n amrywio o un diben penodol i gyfuniad o nifer o resymau. Rhestrir rhai ohonynt isod:

**Ffin:** mae Syr Cyril Fox (1882-1967) a oedd yn archaeolegydd ac yn gyfarwyddwr Amgueddfa Genedlaethol Cymru yn awgrymu nad ffin filwrol oedd yma ond terfyn rhwng yr Eingl-Sacsoniaid a'r Cymry (pobl Prydain).

**Amddiffynfa:** Mae Frank Noble (Sylfaenydd Cymdeithas Clawdd Offa), David Hill a Margaret Worthington (a fu'n gweithio i brosiect Clawdd Offa) yn dadlau mai'r hyn sydd yma yw amglawdd a godwyd ar dir Mersia. Roedd elfen filwrol yn perthyn iddo ac ni ellid ei groesi yn ddamweiniol. Roedd yn wrthglawdd amddiffynadwy yn hytrach na gwrthglawdd amddiffynnol ac fe'i hadeiladwyd i atal cyrchoedd y Cymry (pobl Prydain).

**Grym/Cyfoeth:** Mae Keith Ray ac Ian Bapty (archaeolegwyr) yn dadlau bod y Clawdd wedi cael ei godi i ddangos i deyrnasoedd eraill fod y pŵer a'r cyfoeth gan Offa i adeiladu'r fath strwythur. Cafodd ei adeiladu i gael ei weld o'r gorllewin, i'w wneud yn fwy amlwg weledol i'r Cymry (pobl Prydain). Dadl arall yw bod adeiladu'r Clawdd yn arddangos pŵer Offa y tu hwnt i ardal y gororau, draw i gyfandir Ewrop hefyd.

**Masnach:** Mae rhai yn dadlau y gallai'r bylchau fod yn arwyddocaol ac awgrymir eu bod yn fannau masnachu posibl rhwng y Cymry (pobl Prydain) a'r Eingl-Sacsoniaid. Er bod gwrthdaro rhwng y Mersiaid a'r Cymry, roedd rhai grwpiau hefyd yn ffurfio cynghreiriau. Awgrym arall yw eu bod yn fannau ar gyfer casglu trethi.



Cyril Fox, y Parth cyhoeddus



Frank Noble, Pinner's Hole gan Suzie Drew


2 –

# Hanes Clawdd Offa

## Cymdeithas Clawdd Offa (ODA) a Chadwraeth

Sefydliad elusennol yw Cymdeithas Clawdd Offa (ODA) sy'n bodoli'n unswydd i hyrwyddo cadw, amddiffyn a deall Clawdd Offa. Dyma rai elfennau allweddol o waith y Gymdeithas:

Offa's Dyke Association




**Cronfa Gadwraeth:** Mae ODA yn rhedeg Cronfa Gadwraeth, sy'n cefnogi prosiectau cadwraeth ymarferol ar hyd y Clawdd. Mae'r gronfa yn helpu i dalu am weithgareddau fel y rhai canlynol:

- Rheoli llystyfiant er mwyn sicrhau bod y Clawdd yn parhau i fod yn gadarn ac yn weladwy.
- Atgyweirio a sefydlogi rhannau sydd wedi'u difrodi.

**Partneriaethau:** 'Mae ODA mewn partneriaeth â Cadw, Historic England a Chyngor Sir Amwythig yn aelod o'r grŵp llywio sy'n rheoli Prosiect Cadwraeth Clawdd Offa. Nod y prosiect hirdymor hwn yw gwrthweithio'r 'esgeulustod diniwed' sydd wedi effeithio ar yr heneb trwy gyflawni gwaith cadwraeth adferol a dylanwadu ar ei rheolaeth i'r dyfodol ar lawr gwlad. Mae Swyddog y Prosiect yn gweithio gyda Swyddog Llwybrau Cenedlaethol Llwybr Clawdd Offa i symud rhannau o'r llwybr i lawr o frig y Clawdd i'r tir gerllaw i leihau risgiau difrod ac erydu.

**Cadwraeth o dan arweiniad gwirfoddolwyr:** Nod ODA yw sefydlu cynllun wardeiniaid gwirfoddol hirdymor i fonitro cyflwr yr heneb, gan gynnwys yr adrannau nad ydynt yn cydredeg â'r Llwybr Cenedlaethol. Bydd ffotograffau o fannau penodedig a gymerir droeon dros nifer o flynyddoedd yn dangos patrymau cyflwr ac yn helpu i lywio rheolaeth yr heneb i'r dyfodol.

Gwirfoddolwyr sy'n gofalu am flychau stampiau Pasbort cerddwyr ODA. Mae'r arian a godir trwy werthu'r Pasbort yn cefnogi Cronfa Gadwraeth ODA.


**Addysg ac ymgysylltu cymunedol:** Mae ODA yn hyrwyddo pwysigrwydd cadwraeth Clawdd Offa trwy gyfrwng y canlynol:

- Anerchiadau a digwyddiadau cyhoeddus
- Rhaglenni addysgol ar gyfer ysgolion a grwpiau cymunedol.
- Arddangosfeydd ac arddangosiadau dehongli yng Nghanolfan Clawdd Offa.

**Codi arian:** Mae ODA yn dibynnu ar roddion ariannol a gwaith codi arian i gefnogi gwaith cadwraeth y gymdeithas. Mae modd i aelodau'r Gymdeithas a'i chefnogwyr gyfrannu trwy danysgrifiadau blynyddol, trwy gyfraniadau ariannol, trwy brynu llyfrau a mapiau o siop ar-lein ODA (offasdyke.org.uk/shop) neu trwy gymryd rhan mewn digwyddiadau codi arian.

# 2 -
# Map o Glawdd Offa





3 -

# Gweithgaredd 1: Beth?

**Amcan:**
Mae'r gweithgareddau isod yn annog y disgyblion i archwilio beth yw Clawdd Offa. Yn ôl English Heritage mae'n 'cynnwys clawdd pridd sydd, mewn mannau, yn dal i fod yn 12 troedfedd (3.5 metr) o uchder, gyda ffos chwarel ddofn o'i flaen sydd hyd at 60 troedfedd (18 metr) o led. Mae gwaith cloddio wedi cadarnhau bod rhagfur pren yn arfer rhedeg ar ben y clawdd a bod rhannau o hwnnw wedi cael eu hailgodi â cherrig yn ddiweddarach.

**Gallai'r disgyblion:**

- Archwilio beth yw Clawdd Offa. Gallent ddefnyddio'r gwefannau canlynol:
    - Cymdeithas Clawdd Offa
    - Croeso Cymru: Clawdd Offa
    - BBC: Clawdd Offa
    - English Heritage – Offa's Dyke

- Defnyddio Atodiad 1 a gwerthuso eu canfyddiadau a thrafod:
    - Beth, yn eu barn nhw, oedd Clawdd Offa.
    - Sut roedd Clawdd Offa yn edrych, yn eu barn nhw.

- Defnyddio Atodiad 1 a thynnu llun o sut roedd Clawdd Offa yn edrych yn eu barn nhw.

- Cyflwyno eu canfyddiadau, gan gynnwys ffotograffau, lluniau a thestun mewn cyflwyniadau PowerPoint, arddangosiadau neu waith collage.

- Ymchwilio i henebion eraill yng Nghymru a'u cymharu â Chlawdd Offa. Gallai'r disgyblion ddefnyddio:
    - Cofnodion Cadw: Asedau Hanesyddol Cenedlaethol Cymru

- Gwerthuso eu sgiliau ymchwil a thrafod beth fu'n llwyddiannus a'r hyn y gellid ei wella.

## Sgiliau

- Ymchwilio
- Llythrennedd
- Cyfathrebu
- Llafaredd
- Chwilfrydedd
- Cymhwysedd digidol
- Creadigrwydd ac arloesedd
- Meddwl yn feirniadol a datrys problemau
- Effeithiolrwydd personol
- Cynllunio a threfnu

## Offer

- Y Rhyngrwyd
- Atodiad 1

## Meysydd Dysgu

- Y Dyniaethau
- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu
- Y Celfyddydau Mynegiannol



Rhan benodedig o Glawdd Offa, Edenhope Hill
gan Colin Park, CC BY-SA 2.0

# Atodiad 1 Gwerthuso'r canfyddiadau

Enw ______________________

Yn dy farn di, beth oedd Clawdd Offa? ______________________

______________________

______________________

______________________


Sut roedd Clawdd Offa yn edrych yn dy farn di? ______________________

______________________

______________________

______________________

Tynna lun i ddangos sut roedd Clawdd Offa yn edrych yn dy farn di



3 -

# Gweithgaredd 2: **Pryd?**

**Amcan:**
Mae'r gweithgareddau isod yn annog y disgyblion i ymchwilio i'r adeg pan adeiladwyd Clawdd Offa ac i edrych ar fywyd yng Nghymru cyn i'r Brenin Offa ddod i rym ac yn ystod ei deyrnasiad. Daeth Offa i rym mewn cyfnod o aflonyddwch ar hyd y gororau sef y ffin rhwng tiroedd y Cymry a'r Eingl-Sacsoniaid. Roedd grym teyrnas Eingl-Sacsonaidd Mersia yn tyfu a golygai hynny bod y Cymry (pobl Prydain) yn colli tir i'r Eingl-Sacsoniaid.

**Gallai'r disgyblion:**

- Ymchwilio i fywyd yng Nghymru wedi i'r Rhufeiniaid adael a chyn i Offa ddod i rym. Gallent feddwl am y canlynol:
  - Pwy oedd yn byw yng Nghymru yn ystod y cyfnod hwn.
  - A oedd hwn yn gyfnod o aflonyddwch neu heddwch? Gallent ymchwilio i Glawdd Wat (gwrthglawdd arall sy'n cyd-redeg â Chlawdd Offa) a pham y cafodd hwnnw ei adeiladu.
  - Pwy oedd yr Eingl-Sacsoniaid, o ble daethon nhw a phwy oedd y gwahanol lwythau yng Nghymru. Defnyddio'r map yn Atodiad 2 i greu map o leoliadau Llwythau Cymru yn y cyfnod hwnnw.

- Ymchwilio i fywyd yng Nghymru pan oedd y Brenin Offa mewn grym. Gallent feddwl am y canlynol:
  - Pwy oedd yn byw yng Nghymru yn ystod y cyfnod hwn a pha effaith gafodd Offa ar Gymru wedi iddo ddod i rym? Defnyddio'u map o Atodiad 2 i gymharu'r adeg cyn ac ar ôl i Offa ddod i rym.
  - Ai cyfnod o aflonyddwch neu heddwch oedd hwn?

- Cyflwyno eu canfyddiadau, gan gynnwys ffotograffau, lluniau a thestun mewn cyflwyniadau PowerPoint, arddangosiadau neu waith collage.

## Sgiliau

- Ymchwilio
- Llythrennedd
- Cyfathrebu
- Llafaredd
- Chwilfrydedd
- Cymhwysedd digidol
- Creadigrwydd ac arloesedd
- Meddwl yn feirniadol a datrys problemau
- Effeithiolrwydd personol
- Cynllunio a threfnu

## Offer

- Y Rhyngrwyd
- Atodiad 2

## Meysydd Dysgu

- Y Dyniaethau
- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

## Links


- BBC: Creu'r Gymru Ganoloesol
- English Heritage: Anglo Saxons



Llun o Glawdd Offa gan Dave McGlade

# Atodiad 2 Llwythau Cymru

Enw ______________________



3 -

# Gweithgaredd 3: **Pwy?**

**Amcan:**
Mae'r gweithgareddau isod yn annog y disgyblion i ddysgu mwy am y Brenin Offa a phwy oedd yn byw yng Nghymru yn ystod ei deyrnasiad. Gwyddom fod Offa wedi uno De Lloegr trwy ymosod ar frenhinoedd eraill a'u trechu, chwalu unrhyw wrthwynebiad a chreu teyrnas fawr a grymus. Nid oedd y Cymry (pobl Prydain) yn y cyfnod hwn yn llwythau unedig. Yn hytrach, roeddent yn byw mewn aneddiadau bach mewn ardaloedd gwledig yn bennaf.

**Gallai'r disgyblion:**

- Ymchwilio i bwy oedd y Brenin Offa. Gallent feddwl am y canlynol:
    - Pwy oedd mewn grym cyn y Brenin Offa.
    - Sut y daeth Offa i rym.
    - Pam yr oedd Offa yn arweinydd mor nerthol.
- Defnyddio'r llinell amser a'r templed yn Atodiad 3 i gofnodi nodweddion a sgiliau'r Brenin Offa yn ogystal â'i brif gyflawniadau.
- Llunio rhestr o'r cwestiynau yr hoffent eu gofyn i'r Brenin Offa. Yna, mynd ati yn eu tro i ateb y cwestiynau gan gymryd arnynt rôl y Brenin Offa.
- Defnyddio Atodiad 4 a dychmygu eu bod yn rhan o anheddiad yng Nghymru yn ystod teyrnasiad y Brenin Offa. Gallent wneud y canlynol:
    - Dylunio eu hanheddiad eu hunain.
    - Meddwl am yr adnoddau y byddai eu hangen arnynt.
    - Meddwl am sut y byddent yn goroesi, e.e. bwyd, lloches, ymosodiadau gan yr Eingl-Sacsoniaid.

## Sgiliau

- Ymchwilio
- Llythrennedd
- Cyfathrebu
- Llafaredd
- Chwilfrydedd
- Cymhwysedd digidol
- Creadigrwydd ac arloesedd
- Cynllunio a threfnu

## Offer

- Y Rhyngrwyd
- Atodiad 3
- Atodiad 4

## Meysydd Dysgu

- Y Dyniaethau
- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu
- Y Celfyddydau Mynegiannol



Offa, Brenin Mersia ar geiniog wen
Y Parth Cyhoeddus

Enw ____________________

## Llinell Amser

730 — Geni'r Brenin Offa, mab Thingfrith fab Eanwulf.

757 — Mae'n cipio'r orsedd ar ôl ymladd yn erbyn ei gefnder Aethelbald a'i ladd.

760 — Mae ysbeilwyr o Gymru yn ymosod ac yn ei drechu yn Henffordd.

764 — Mae Offa yn ymosod ar Gaint ac yn trechu'r Brenin Sigered.

768 — Mae Offa yn priodi Cynethryth ac yn cael pedwar o blant; Ecgfrith, Eadburh, Aethelburh ac Aelfflaed.

770 — Y Frenhines Cynethryth yw'r frenhines gyntaf i ymddangos ar ddarn arian.

779 — Mae Offa yn trechu Cynewulf, Brenin Wessex.

786 — Mae Offa yn dod yn benarglwydd Wessex ac yn rhoi Beorhtric ar yr orsedd. Mae Eadburh, merch Offa, yn priodi Beorhtric.

794 — Mae Aethelbert, Brenin Dwyrain Anglia yn cael ei ddienyddio.

796 — Mae Offa yn marw ac mae'i fab Ecgfrith yn ei olynu.

Enw ______________________

# BRENIN OFFA

Offa, Brenin Mersia ar geiniog wen



## NODWEDDION

## SGILIAU

## PRIF GYFLAWNIADAU

# Atodiad 4 Dylunio eich anheddiad Cymreig eich hun

Enw ______________________

Llunio uwcholwg o'r anheddiad

# Atodiad 4 Dylunio eich anheddiad Cymreig eich hun

Pa adnoddau y byddai eu hangen?

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |

Sut byddech chi'n goroesi (e.e. bwyd, lloches, ymosodiadau gan yr Eingl-Sacsoniaid)

# Gweithgaredd 4: Ble?

**Amcan:**
Mae'r gweithgaredd hwn yn annog y disgyblion i ddefnyddio eu sgiliau map i ddarganfod ble y cafodd Clawdd Offa ei adeiladu a pham, yn eu barn nhw, y dewiswyd y safleoedd hyn.

**Gallai'r disgyblion:**

- Defnyddio'r map yn Atodiad 5 i archwilio ble y cafodd Clawdd Offa ei adeiladu.
- Rhestru'r gwahanol fathau o dirlun y byddai'r Clawdd wedi'u croesi yn ystod y cyfnod hwnnw.
- Mewn grwpiau, trafod pam roedd y Brenin Offa wedi dewis adeiladu'r Clawdd ar hyd y llwybr yma. Gallai'r disgyblion feddwl am y canlynol:
    - Y gwahanol fathau o dirlun
    - Y mannau bob ochr i'r Clawdd
- Ymchwilio i'r rhannau o Glawdd Offa sy'n dal i sefyll heddiw ger eu hysgol.
- Rhestru'r mathau o dirlun y mae'r Clawdd yn eu croesi heddiw.
- Chwilio am  eu rhan agosaf o'r Clawdd. Defnyddio'r daflen gofnodi yn Atodiad 6 i gofnodi ei gyflwr. Ymweld â'r safle a chreu fideo/thynnu lluniau/braslunio'r hyn a welant i ychwanegu at yr adroddiad.
- Adrodd yn ôl i'r dosbarth ar y gwahaniaethau rhwng tirlun heddiw a thirlun y gorffennol.past and the landscape now.

## Sgiliau


- Ymchwilio
- Llythrennedd
- Cyfathrebu
- Llafaredd
- Chwilfrydedd
- Cymhwysedd digidol
- Creadigrwydd ac arloesedd
- Meddwl yn feirniadol a datrys problemau
- Effeithiolrwydd personol
- Cynllunio a threfnu

## Offer

- Atodiad 5
- Atodiad 6

## Meysydd Dysgu


- Y Dyniaethau
- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu
- Y Celfyddydau Mynegiannol
- Iechyd a Lles



Delwedd o ddilyniant o ffotograffau o bwynt sefydlog, Trefyclo gan Dave McGlade

# Atodiad 5 Map o Glawdd Offa

Enw ____________________



# Atodiad 6 Taflen gofnodi

Enw ____________________

Ticia'r blwch sy'n fwyaf perthnasol i gyflwr yr heneb fel y gweli hi

| **Dim Difrod** | **Peth Difrod** | **Difrod Sylweddol** |
| --- | --- | --- |
| *Wedi'i gorchuddio'n llwyr â phorfa* | *Pridd moel ac erydiad* | *Erydiad difrifol neu fandaliaeth* |
| ☐ | ☐ | ☐ |

Ysgrifenna nodiadau am y newidiadau rwyt ti wedi sylwi arnyn nhw ers dy ymweliad diwethaf â'r heneb

Tynna fraslun o'r heneb i amlygu unrhyw newidiadau ers dy ymweliad diwethaf

# Gweithgaredd 5: Sut?

**Amcan:**
Mae'r gweithgaredd hwn yn annog y disgyblion i feddwl am sut y cafodd Clawdd Offa ei adeiladu. O ran ei hyd, credir bod y gwrthglawdd yn 82 o filltiroedd. Byddai angen arian, gweithlu a sgiliau trefnu gwych i adeiladu strwythur mor hir.

**Mantell yr Arbenigwr:** "Nid yw Mantell yr Arbenigwr yn golygu bod y myfyrwyr yn derbyn arbenigedd drwy ryw ryfedd wyrth hudol. Yn y byd go-iawn maent yn blant o hyd. Dim ond o fewn ffuglen y maent yn gweithredu 'fel pe baent' yn arbenigwyr. Hynny yw, maent yn defnyddio pwerau a chyfrifoldebau tîm o arbenigwyr, gan weithio ar aseiniadau pwysig, gan ganolbwyntio ar y pethau sy'n bwysig iddynt, a theimlo'n falch o'u statws". Sut mae Mantell yr Arbenigwr yn gweithio?

**Gallai'r disgyblion:**

- Defnyddio 'Mantell yr Arbenigwr' i gymryd arnynt rôl y Brenin Offa. Defnyddio Atodiad 7 i gynllunio sut y byddant yn mynd ati i godi'r gwrthglawdd. Gallai'r disgyblion feddwl am y canlynol:
  - Sut olwg oedd ar y gwrthglawdd a sut y cafodd ei adeiladu.
  - Pa fath o dirlun sydd yma a sut y byddent yn goresgyn rhwystrau, e.e. afonydd, bryniau, coedwigoedd.
  - A gafodd unrhyw wrthgloddiau eraill eu codi. Ymchwilio i'r rhain ac ysgrifennu beth oedd yn llwyddiannus yn eu barn nhw (e.e. Clawdd Wat).
  - Y mathau o dasgau y byddai angen eu gwneud.
  - Faint o bobl y byddai eu hangen.
  - Pa ddefnyddiau y byddai eu hangen.
  - O ble y byddai'r deunyddiau hyn wedi dod.
  - Ble y byddai'r gweithlu yn byw.
  - Beth y byddai'r gweithlu yn ei fwyta ac o ble y byddai'r bwyd hwn yn dod.
  - Sut y byddai'r gweithlu yn cyfathrebu ag Offa a'r naill a'r llall.

- Cyflwyno eu canfyddiadau i'r dosbarth a thrafod eu canlyniadau. Yn eu barn nhw, pwy sy'n fwyaf cywir?

## Sgiliau

- Ymchwilio
- Llythrennedd
- Cyfathrebu
- Llafaredd
- Chwilfrydedd
- Cymhwysedd digidol
- Creadigrwydd ac arloesedd
- Meddwl yn feirniadol a datrys problemau
- Effeithiolrwydd personol
- Cynllunio a threfnu

## Offer

- Atodiad 7

## Meysydd Dysgu

- Y Dyniaethau
- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu
- Y Celfyddydau Mynegiannol
- Mathemateg a Rhifedd



Clawdd Offa ger Cwm
gan Jeff Buck, CC BY-SA 2.0

# Atodiad 7 Mantell yr Arbenigwr

Enw ______________________

Cymer arnat rôl y Brenin Offa a chynllunio sut rwyt ti'n mynd i adeiladu Clawdd Offa

Pa fath o dasgau bydd angen eu gwneud?

- ______________________
- ______________________
- ______________________
- ______________________
- ______________________
- ______________________
- ______________________
- ______________________

Faint o bobl fydd eu hangen?

Ble bydd y gweithlu yn byw?

Beth bydd y gweithlu yn bwyta?

Sut bydd y gweithlu yn cyfathrebu â thi a sut byddan nhw'n cyfathrebu â'i gilydd?

______________________

______________________

______________________

# Atodiad 7 Mantell yr Arbenigwr

Enw ______________________

Pa fath o dirlun sydd yma a sut byddet ti’n goresgyn unrhyw rwystrau?

Pa ddeunyddiau sydd eu hangen?

O ble bydd y deunyddiau yn dod?

Tynna ochrolwg i ddangos sut gallai’r amddiffynfeydd edrych

# Gweithgaredd 6: **Pam?**

**Amcan:**
Mae'r gweithgaredd hwn yn annog y disgyblion i archwilio'r rhesymau posibl dros adeiladu Clawdd Offa. Mae llawer o bobl wedi ysgrifennu am Glawdd Offa a pham y cafodd ei adeiladu ond gwaith dyfalu yn unig yw llawer ohono, yn seiliedig ar y dystiolaeth gyfyngedig sydd ar gael. Bydd y disgyblion yn defnyddio'r dystiolaeth a'r ffordd bresennol o feddwl i gyflwyno eu canfyddiadau.

**Gallai'r disgyblion:**

- Defnyddio Atodiad 8 a'u gwaith ymchwil eu hunain i edrych ar syniadau pobl ynghylch pam yr adeiladwyd Clawdd Offa. Mae'r damcaniaethau yn cynnwys:
  - Ffin
  - Amddiffynfa
  - Arwydd o bŵer a chyfoeth
  - Masnachu â'r bobl dros y ffin
- Ymchwilio i wrthgloddiau eraill a'r rhesymau dros eu hadeiladu, er mwyn helpu i lywio'r gwaith ymchwil.
- Cyflwyno eu canfyddiadau i'r dosbarth trwy gyflwyniadau PowerPoint, trafodaethau dosbarth neu waith collage.
- Defnyddio Atodiad 8 i'w helpu i ffurfio eu syniadau a'u dadleuon a rhestru manteision ac anfanteision pob damcaniaeth yn Atodiad 9.
- Dewis un ddamcaniaeth a chymryd rhan mewn trafodaeth, gan ddadlau dros eu dewis ddamcaniaeth.
- Fel unigolyn/grŵp/dosbarth penderfynu pa ddamcaniaeth, yn eu barn nhw, sy'n disgrifio orau pam yr adeiladwyd Clawdd Offa.

## Sgiliau

- Ymchwilio
- Llythrennedd
- Cyfathrebu
- Llafaredd
- Chwilfrydedd
- Cymhwysedd digidol
- Creadigrwydd ac arloesedd
- Meddwl yn feirniadol a datrys problemau
- Effeithiolrwydd personol
- Cynllunio a threfnu

## Offer

- Atodiad 8
- Atodiad 9

## Meysydd Dysgu

- Y Dyniaethau
- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

## Links

- Clawdd Wat



Llun o Glawdd Offa gan Dave McGlade

# Atodiad 8 Pam y cafodd ei adeiladu?

Enw ______________________

**Ffin:** Mae Syr Cyril Fox (1882-1967) a oedd yn archaeolegydd ac yn gyfarwyddwr Amgueddfa Genedlaethol Cymru yn awgrymu nad ffin filwrol oedd yma ond terfyn rhwng yr Eingl-Sacsoniaid a'r Cymry (pobl Prydain).

**Amddiffynfa:** Mae Frank Noble (Sylfaenydd Cymdeithas Clawdd Offa), David Hill a Margaret Worthington (a fu'n gweithio i brosiect Clawdd Offa) yn dadlau mai'r hyn sydd yma yw amglawdd a godwyd ar dir Mersia. Roedd elfen filwrol yn perthyn iddo ac ni ellid ei groesi yn ddamweiniol. Roedd yn wrthglawdd amddiffynadwy yn hytrach na gwrthglawdd amddiffynnol ac fe'i hadeiladwyd i atal cyrchoedd y Cymry (pobl Prydain).

**Grym/Cyfoeth:** Mae Keith Ray ac Ian Bapty (archaeolegwyr) yn dadlau bod y Clawdd wedi cael ei godi i ddangos i deyrnasoedd eraill fod y pŵer a'r cyfoeth gan Offa i adeiladu'r fath strwythur. Cafodd ei adeiladu i gael ei weld o'r gorllewin, i'w wneud yn fwy amlwg weledol i'r Cymry (pobl Prydain). Dadl arall yw bod adeiladu'r Clawdd yn arddangos pŵer Offa y tu hwnt i ardal y gororau, draw i gyfandir Ewrop hefyd.

**Masnach:** Mae rhai yn dadlau y gallai'r bylchau fod yn arwyddocaol ac awgrymir eu bod yn fannau masnachu posibl rhwng y Cymry (pobl Prydain) a'r Eingl-Sacsoniaid. Er bod gwrthdaro rhwng y Mersiaid a'r Cymry, roedd rhai grwpiau hefyd yn ffurfio cynghreiriau. Awgrym arall yw eu bod yn fannau ar gyfer casglu trethi.

# Atodiad 9 Yn dy farn di, pam y cafodd y Clawdd ei adeiladu?

Enw ______________________

## Ffin?

______________________

______________________

______________________

______________________

______________________

______________________

## Amddiffyniad?

______________________

______________________

______________________

______________________

______________________

______________________

# Atodiad 9 Yn dy farn di, pam y cafodd y Clawdd ei adeiladu?

Enw ______________________

## Pŵer/Cyfoeth?

______________________

______________________

______________________

______________________

______________________

______________________

## Masnachu?

______________________

______________________

______________________

______________________

______________________

______________________

3 -

# Gweithgaredd 7: Nawr?

**Amcan:**
Mae'r gweithgaredd hwn yn annog y disgyblion i feddwl am Glawdd Offa heddiw. Mae 'Cynllun Rheoli Cadwraeth Clawdd Offa' ar gael sy'n disgrifio pwysigrwydd y Clawdd a sut y gellir ei ddiogelu i'r dyfodol. Mae'n amlygu'r bygythiadau sy'n wynebu'r heneb ac yn argymell sut y gellid gwella'r sefyllfa. Yn ogystal, mae'n amlygu diddordebau amrywiol y gwahanol sectorau a'u hanghenion a'u nodau ar gyfer y Clawdd a'r ardaloedd cyfagos.

**Gallai'r disgyblion:**

- Ymchwilio i sut mae'r Clawdd yn edrych heddiw. Gallai'r disgyblion ddefnyddio'r wybodaeth yn yr adran 'Ble?' i feddwl am leoliad y Clawdd heddiw a'r mathau o dirlun y mae'n eu croesi.

- Ymchwilio i'r geiriau isod a'r swyddi sy'n gysylltiedig â nhw a defnyddio Atodiad 10 i gofnodi eu canfyddiadau.
  - Cadwraeth Treftadaeth – Swyddog Treftadaeth
  - Cadwraeth Amgylcheddol – Swyddog Amgylcheddol
  - Twristiaeth – Swyddog Twristiaeth
  - Ffermio - Ffermwr

- Defnyddio eu canfyddiadau yn Atodiad 10 i gymryd arnynt rôl un o'r bobl ganlynol a chyfweld â'i gilydd.
  - Swyddog Treftadaeth
  - Swyddog Amgylcheddol
  - Swyddog Twristiaeth
  - Ffermwr

- Cymryd rhan mewn dadl ynghylch 'Pa un ddylai gael ei flaenoriaethu yn gyntaf: treftadaeth, yr amgylchedd, twristiaeth neu ddefnydd amaethyddol o'r Clawdd?'

### Sgiliau

- Ymchwilio
- Llythrennedd
- Cyfathrebu
- Llafaredd
- Chwilfrydedd
- Cymhwysedd digidol
- Creadigrwydd ac arloesedd
- Meddwl yn feirniadol a datrys problemau
- Effeithiolrwydd personol
- Cynllunio a threfnu

### Offer

- Atodiad 10

### Meysydd Dysgu

- Y Dyniaethau
- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu
- Y Celfyddydau Mynegiannol

Erydiad a achosir gan gerddwyr sy'n croesi camfa'r Llwybr Cenedlaethol i gopa'r Clawdd gan Dave McGlade



# Atodiad 10 Mathau o Bobl

Enw ______________________

Teitl y Swydd
(e.e. Swyddog Treftadaeth, Swyddog Amgylcheddol, Swyddog Twristiaeth, Ffermwr)

Disgrifiad Swydd

______________________

______________________

______________________

Sgiliau Angenrheidiol

- ______________________
- ______________________
- ______________________
- ______________________

Cymwysterau Angenrheidiol

- ______________________
- ______________________
- ______________________
- ______________________

Nodweddion Personol Angenrheidiol

- ______________________
- ______________________
- ______________________
- ______________________
- ______________________
- ______________________

# Gweithgaredd 8: Beth gallwch chi ei wneud?

**Amcan:**
Nod y gweithgaredd hwn yw annog y disgyblion i feddwl am yr hyn y gallant ei wneud i amddiffyn a chadw eu rhan agosaf o Glawdd Offa.

**Gallai'r disgyblion:**

- Defnyddio Mantell yr Arbenigwr a'r wybodaeth a gasglwyd yn Atodiad 10 i gynnal gwaith ymchwil a chymryd arnynt un o'r rolau canlynol:
  - Swyddog Treftadaeth Cadw
  - Swyddog Amgylcheddol y Cyngor
  - Rheolwr Twristiaeth Croeso Cymru
  - Rheolwr Canolfan Dreftadaeth Clawdd Offa

  Yna mewn grŵp, defnyddio Atodiad 11 i lunio cynllun i gyflawni'r nod canlynol, 'bod Clawdd Offa yn cael ei ddeall yn well ac mewn gwell cyflwr i gael ei drosglwyddo i'r genhedlaeth nesaf'

  **Gallai'r disgyblion wneud y canlynol:**
  - Rhestru eu prif nodau a pham y maent yn rhan bwysig o'u rôl.
  - Meddwl am sut y gallent rannu nodau eu rôl â'r cyhoedd.
  - Meddwl am sut y gallent weithio gyda'r rolau eraill a'r bobl/sefydliadau eraill i wireddu eu nodau.
  - Fel grŵp, llunio poster i hysbysebu Clawdd Offa gan ddefnyddio'r syniadau yn Atodiad 12 i'w hysbrydoli.

- Cymryd rhan mewn prosiect sy'n cwmpasu Clawdd Offa cyfan. Gallai hyn gynnwys:
  - Cofnodi eu rhan eu hunain o'r Clawdd bob blwyddyn a nodi'r newidiadau mewn lluniau neu frasluniau.
  - Cysylltu ag ysgolion eraill yn lleol, yng Nghymru ac yn Lloegr, a rhannu data.
  - Cysylltu â Chymdeithas Clawdd Offa a gofyn sut y gallent ddefnyddio'r gwaith ymchwil hwn i'w helpu i amddiffyn y Clawdd.

## Sgiliau

- Ymchwilio
- Llythrennedd
- Cyfathrebu
- Llafaredd
- Chwilfrydedd
- Cymhwysedd digidol
- Creadigrwydd ac arloesedd
- Meddwl yn feirniadol a datrys problemau
- Effeithiolrwydd personol
- Cynllunio a threfnu

## Offer

- Atodiad 10
- Atodiad 11
- Atodiad 12

## Meysydd Dysgu

- Y Dyniaethau
- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu
- Gwyddoniaeth a Thechnoleg
- Y Celfyddydau Mynegiannol

## Links

- Cadw: Gofalu am eich heneb gofrestredig



Llun o Glawdd Offa gan Dave McGlade

# Atodiad 11 Meddiannu hanes

Enw ______________________

Pa un wyt ti? (ticio un blwch)

| Swyddog Treftadaeth | Swyddog Amgylcheddol | Rheolwr Twristiaeth Croeso Cymru | Rheolwr Treftadaeth Canolfan Clawdd Offa |
| --- | --- | --- | --- |
| ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

Llunia restr o'th brif nodau:

- ______________________
- ______________________
- ______________________
- ______________________
- ______________________
- ______________________
- ______________________
- ______________________

Sut byddet ti'n rhannu dy nodau â'r cyhoedd?

- ______________________
- ______________________
- ______________________
- ______________________
- ______________________
- ______________________
- ______________________
- ______________________

Sut byddet ti'n gweithio gyda'r rolau/sefydliadau eraill i gyflawni'r nodau yn y rhestr:

______________________

______________________

______________________


# Atodiad 11 Meddiannu hanes

Enw ______________________

Gan weithio gyda'r aelodau eraill o'r tîm, dylunia boster i hysbysebu Clawdd Offa. Cofia gynnwys nodau pob aelod.

Enw ______________________

Enghraifft o neges gadwraeth i ymwelwyr â Llwybr Mur Hadrian



**EROSION CONTROL**

Help us to protect the archaeology

Please do not walk in single file

Avoid walking in worn lines in the grass

NATIONAL TRAIL

**Thankyou from the National Trail team**

**www.nationaltrail.co.uk/hadrianswall**




## Y Gymdeithas a'i gwaith cadwraeth

Cymdeithas Clawdd Offa (ODA) yw'r unig sefydliad sy'n ymwneud â Chlawdd Offa ar ei hyd, yng Nghymru a Lloegr, ac nid dim ond yr hanner cant y cant sy'n cyd-fynd â'r Llwybr Cenedlaethol. Lleolir Cymdeithas Clawdd Offa yng Nghanolfan Clawdd Offa yn Nhref-y-clawdd lle gall ymwelwyr ganfod mwy am Glawdd Offa a'i berthynas â'r Llwybr Cenedlaethol.

Ynghyd â Cadw, Historic England a Chyngor Sir Swydd Amwythig, mae Cymdeithas Clawdd Offa yn aelod o'r grŵp llywio sy'n goruchwylio Prosiect Cadwraeth Clawdd Offa. Mae'r elw o werthu'r Pasbort yn cefnogi Cronfa Gadwraeth Cymdeithas Clawdd Offa ei hun ar gyfer y Clawdd.

**Cefnogi prosiectau cadwraeth ar hyd Clawdd Offa**

Trwy brynu'r Pasbort hwn rydych yn dangos ymrwymiad i helpu Cymdeithas Clawdd Offa i hyrwyddo a chefnogi'n ariannol brosiectau cadwraeth ar hyd y Clawdd.

## The Association and its conservation work

The Offa's Dyke Association (ODA) is the only organisation concerned with all of Offa's Dyke, in both England and Wales, and not just the fifty percent that is coincident with the National Trail. The ODA is based at the Offa's Dyke Centre in Knighton where visitors can discover more about Offa's Dyke and its relationship with the National Trail.

Along with Cadw, Historic England and Shropshire County Council, the ODA is a member of the steering group overseeing the Offa's Dyke Conservation Project. Proceeds from the sale of the Passport support the ODA's own Conservation Fund for the Dyke.

**Supporting conservation projects along Offa's Dyke**

By buying this Passport you are showing a commitment to helping the ODA promote and financially support conservation projects the length of the Dyke.


**Cymdeithas Clawdd Offa**
**Sefydliad Corfforedig Elusennol Rhif: 1203068**

**Offa's Dyke Association**
**Charitable Incorporated Organisation No: 1203068**



*Gosod draeniad ac wyneb i amddiffyn y clawdd*

*Installing drainage and a sacrificial surface to protect the monument*



*Mae'r strwythur hwn yn pontio Clawdd Offa i leihau sathru'r llwybr dan draed cerddwyr*

*This structure bridges Offa's Dyke to remove risk of erosion from walkers*

### Enghreifftiau o waith cadwraeth a gefnogir gan Gronfa Gadwraeth Cymdeithas Clawdd Offa

Dysgwch fwy am ein gwaith cadwraeth yn www.offasdyke.org.uk

### Examples of conservation work supported by the ODA's Conservation Fund

Find out more about our conservation work at www.offasdyke.org.uk

## Pasbort Tymhorol

Mae tymor y Pasbort yn rhedeg rhwng y Pasg a mis Hydref pan, mewn blwyddyn arferol, mae priddoedd y Clawdd yn sychach dan draed. Yn ystod misoedd y gaeaf mae'r priddoedd yn wlyb ac mae llawer mwy o risg o erydu i'r heneb, yn enwedig lle mae'r Llwybr yn dal i fod ar frig y Clawdd. Y nod, pan fydd y Llwybr wedi ei ddargyfeirio oddi ar y brig, yw ymestyn y tymor.

## Aelodaeth o Gymdeithas Clawdd Offa

I ddod yn aelod o Gymdeithas Clawdd Offa, ac i gael tystysgrifau cyflawniad personol, bathodynnau cwblhau, arweinlyfrau, mapiau a chofroddion Clawdd Offa ewch i www.offasdyke.org.uk

## Seasonal Passport

The Passport season runs between Easter and October when, in a normal year, the Dyke's soils are drier underfoot. In the winter months the soils are wet and there is much greater risk of erosion to the monument, especially where the Trail is still located on the crest of the Dyke. The aim, when the Trail has been diverted off the crest, is to extend the season.

## Offa's Dyke Association membership

For ODA membership, personalised certificates of achievement, completion badges, guidebooks, maps and Offa's Dyke souvenirs visit www.offasdyke.org.uk

*Llun y Clawr: Clawdd Offa ar Fryn-y-Ffynnon gan yr arlunydd Elaine Morgan facebook.com/elainesartwork*
*Cover: Offa's Dyke on Springhill by Elaine Morgan facebook.com/elainesartwork*

***Mae'r pasbort hwn hefyd yn gymwys ar gyfer Oriel Anfarwolion y Llwybr Cenedlaethol***
***This passport also qualifies for the National Trail Hall of Fame***